WG35-5-66

# MARWNAD,

NEU,

## DDUWIOL GOFFADWRIAETH

AM Y PARCH.

## *JOSEPH HARRIS*,

YR HWN

A fu yn Weinidog llafurus a llwyddiannus gydâ'r Bedyddwyr, yn Heol-y-cefn, Abertawe, am o ddeutu 32 o flynyddau, ac a ymadawodd â'r byd hwn, Awst 10fed, 1825, yn 52 oed,

Ac a gladdwyd yn Mynwent Eglwys Fair, Abertawe,

---

*Oni wyddoch chwi i dywysog ac i wr mawr syrthio heddyw yn Israel.* 2 Sam. 3, 38.

*Coffadwriaeth y Cyfiawn sydd fendigedig.* Sal. 112, 6.

---

A GYFANSODDWYD DROS D. AMOS.

---

I.

TI Gynhaliwr doeth y nefoedd, 'nghyd â Llywydd gwych y Llawr,
Mae dy wyrthiau maith i'w canfod is y rhod bob munud awr
Mae rhyw beth i weld y borau, arall y prydnawn a fydd,
O dy ber weithredoedd manol, maent yn aml iawn bob dydd.

II.

Y mae'r angau'n rhodio'n ddyfal beunydd trwy yr ardal hon,
A'i holl saethau dwys mae'n gwanu ac yn brathu llawer bron
Mae ei effaith ef eleni trwy holl Gymru ar bob rhyw,
Gan ddwyn ganddo ef yn gyson ffyddlon Weinidogion Duw.

III.

Mae pob Sir o Gymru dawel yn cael ei ymweliad clir,
Yn eu tro y maent yn bruddaidd, ac mewn galar digon gwir;
Y mae'n dwyn y mwyaf doniol ag a rodiodd rhyd y llawr,
Gan eu rhoi mewn beddau dystaw, oll yn ddigon llwyd eu gwawr.

IV.

Caled i mi ydyw enwi'r gwr a ddygodd ef yn awr,
Am fod dagrau dros fy ngruddiau'n rhedeg aml weithiau i lawr,
Gweinidog duwiol y Bedyddwyr o dref Abertawe faith,
JOSEPH HARRIS y gwr doniol roed i'r bedd yn ddigon llaith.

V.

Y degfed dydd o Awst diweddaf er mawr alar i nyni,
Ca'dd ei hol o'r anial yma i artrefu gyda'r llu,
A'i gorph i'r ddaear roed i orphwys o fewn Mynwent eglwys
Fair,
Nes delo'r Iesu ar gymmylau i godi'r meirw mewn un gair.

VI.

Bu'n cyhoeddi 'Fengyl Iesu ddeuddeg ar hugain blwyddyn
faith,
Gan ddymuno'i gweld yn llwyddo, bu yn ddiwyd yn ei waith
A'i holl egni y gweddiodd am ei gwel'd yn llwyddo'n llwyr,
Dros y moroedd, a gweld lluoedd yn dod atto foreu a hwyr.

VII.

Ond er ei fod ef yn llafurus o blaid achos Iesu Grist,
Gan roi cysur a diddanwch i'r rhai hynny fyddai'n drist,
Er ei fod o ddoniau helaeth angau ddaeth i'w dorri lawr,
Gan ei roddi yn y beddrod, hyd nes bloeddio'r udgorn mawr

VIII

Ac am hynny y mae galar trwy holl Siroedd Cymru gyd,
Am y'nt golli cwmpni HARRIS, oedd mor llesiol y'nt o hyd.
Am ei roddi yn yr amdo, a'i roi i orwedd dan y donn,
Mae galarnad yn ddiderfyn nawr ar hyd y ddaear hon.

IX.

Eglwys enwog y Bedyddwyr yn Llangloffan sydd â'i gwedd
Yn alarus am ei golli, a'i roi i orwedd yn y bedd,
Canys yno y dechreuodd fyn'd dan faner Brenin nef,
O hyn allan bu yn gadarn o blaid grym athrawiaeth gref.

X.

Aberth Iesu wnai bregethu drwy ei oes yn ddisglaer iawn,
Dan drallodion, loesau chwerwon, ei ddifyrwch fyddai'r lawn
Gwel'd pechadur gwedi'i glwyfo, ac yn gadael pechod cas,
Ac yn troi drwy ffydd am noddfa tu ag at orseddfaingc gras.

XI.

Gwel'd yr ysig a'r gwywedig yn dod at y Meddyg mad,
A'r rhai fyddai yn galaru'n dod i ganu am y gwa'd,
Gwel'd y deillion a'r byddariaid 'n dod yn unblaid atto ef,
Fyddai'i gysur a'i ddiddanwch, a'i hyfrydwch tan y nef.

XII.

Rhoi cynghorion i'r ysgolion oedd yn gyson iawn o hyd,
Gan ddymuno'n llwyr o'i galon am eu llwyddiant oll i gyd,
A'i gweld oll yn d'od i geisio am gael cymmod yn y gwad,
Redodd allan ar Galfaria i'r aflana gael iachad.

XIII.

Amryw lyfrau doeth a buddiol roddai'n siriol i bob rhyw,
I'w dwyn o d'w'llwch i oleuni, o feddiant Satan cas at Dduw,

X205 309967

Ac i'w tywys o'r ffordd lydan tua'r Ganaan wiwlan wen,
Trwy 'mddibynnu ar yr Iesu a fu farw ar y pren.

XIV.

E wnai Draethawd pur a dysglaer i iawn brofi DuwdodCrist,
Bu yn ceisio a'i holl egni roddi cysur i'r rhai trist,
Fe ymroddai godi fynu a dyrchafu Mab y dyn,
Trwy roi perffaith iawn wybodaeth, helaeth am y Tri yn Un.

XV.

Bu'n Gyhoeddwr "SERENGOMER" amryw o flynyddau maith
Er goleuo bröydd Cymru, bu'n wr diwyd ar ei daith,
Ac i daenu mwyn wybodaeth ceisiai'n helaeth iawn o hyd,
Ond er hynny mae mewn pridd-dŷ'n oer ei wedd mewn mynwent glyd.

XVI.

Claddedigaeth ei fab anwyl roddai hiraeth yn ei fron,
Yn ddiweddar ga'dd ei gym'ryd oddiar y ddaear hon.
Ond er hynny maent hwy heddy gydâ'u gilydd yn eu bri,
O fewn muriau'r ddinas nefol yn rhoi clod i'n Harglwydd ni.

XVII.

Dyoddefgar iawn mewn cystudd a fu beunydd yma'n byw
Fe a fyddai'n ostyngedig o hyd i ewyllys Duw,
Gweddio ydoedd hyd ddiwedd am fendith ar ei weddw ai blant
A dywedai mai gwell iddo oedd cael mynd o'r byd i bant.

XVIII.

Mai'n cydgordio mewn cân beraidd gydâ David Evans fwyn,
Doctor Gill a Ioan Bunyan, Benjamin Francis yn ddigwyn,
Jones o Ramoth, Titus Lewis, Henry Davies gyda'r rhain,
A David Jones, bererin duwiol, mewn hardd wisg o liain main

XIX.

Er fod HARRIS wedi 'madael, Arglwydd grasol bydd yn rhan
I'w wraig anwyl sy'n galaru, a gwna ddiogelu'r gwan,
Bydd yn blaid i'w blant yn gyson sy'n hiraethlon ar ei ol,
Yn y diwedd dwg hwy'n beraidd i dy fynwes gynnes gôl.

XX.

Dysg hwy ddilyn yr un llwybr, ac i ganlyn ffordd eu tad,
Fel y gallont etifeddu a meddiannu yr un wlad,
Dysg hwy'n foreu yn eu hie'ngctyd ddwyn y groes a chanlyn Crist,
Fel y gallont am eu beiau a'u pechodau fod yn drist.

XXI.

Ei weddw fwynaidd a'i blant tirion, ceisiwch fod yn foddlon iawn,
Er i'ch golli tad a phriod, Iesu o'i addewid llawn
Fydd yn briod mwyn i'r weddw, a thad i'r ymddifaid oll,
Eich holl hyder arno rhoddwch, fe gyflawna yn ddigoll.

XXII.

Gyda'r blaenaf ar hyd Cymru yn wastadol byddai ef,
Mewn Cymmanfa yn pregethu a dyrchafu Brenin nef,
Mewn Cwrdd misol a Chwarterol byddai â'i athrawiaeth gref
Yn gwneud cannoedd i alaru ac i blygu IDDO EF.

XXIII.

Pe gofynem iddo heddyw, Pu'n gwell ydyw arnat 'nawr,
Nâ'r pan oeddyt yn yr anial dyrus yma ar y llawr?
Fe attebai'n orfoleddus, " Mil mwy blasus yw i mi
" Gael bod yma fyth yn gwledda, a rhoi mawl i'r Un yn Dri:

XXIV.

" Nid oes yma ddyfroedd chwerwon, na thrallodion o un rhyw
" Dim ond canu, gorfoleddu, a dyrchafu gwir Fab Duw,
" Byth ni chyfarfyddwn yma â rhyw heintiau maith na phoen
" Ond byw'n hwylus a diddanus fyth ar gariad rhad yr Oen."

XXV.

Pan oedd ddeuddeg mlwydd a deugain, aeth ei ysbryd cyw-
rain ef,
O'r anialwch dyrus yma, i artrefu yn y nef,
I ganu am ei waredigaeth, a'i ryddhad o'i ddirfawr boen,
Ac i ddechreu ar yr Anthem o fawl pêr i Dduw a'r Oen.

XXVI.

Ond O Arglwydd, er it gym'ryd y gwas duwiol attat ti,
O hyn allan bydd haelionus a thosturus wrthym ni,
Anfon etto yn ddiattal weision diwyd yn eu dydd,
I gyhoeddi 'Fengyl Iesu, ac yn ddewr o blaid y ffydd,

XXVII.

Pan fo'm yn yr afon donnog rho dy ysbryd i'n pryd hyn,
Gad in ganu yn ei chanol am y gwaed gaed ar y bryn,
A rho'n felus i'n fel HARRIS, etifeddi'r nefoedd fry,
I roi moliant yn dragwyddol i dy enw gyda'r llu.

---

## HYMN.

Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau nid oes neb a ddeil fy mhen,
Ond fy anwyl Briod Iesu a fu farw ar y pren,
Cyfaill yw yn afon angau ddeil fy mhen uwchlaw y don,
Golwg arno wna i mi ganu yn yr afon ddofn hon.

DIWEDD.

---

*Jonathan Harris, Argraffydd, Caerfyrddin.*